**Grant Gwirfoddoli Strategol CGGC**
**Adroddiad Gwerthuso, Mawrth 2025**

Mae Llais y Goedwig wedi derbyn grant Gwirfoddoli Strategol CGGC ers Hydref 2023,  gan ein galluogi i weithio gyda grŵp ymroddedig o Awdurdodau Lleol yng Nghymru i'w helpu i ddiffinio a gwella dulliau a phrosesau ar gyfer gwirfoddoli ar wahanol lefelau. Mae hyn wedi amrywio o gefnogi grwpiau gwirfoddoli dan reolaeth yr awdurdod lleol mewn ardaloedd gwyrdd, hyfforddiant a marchnata, cymorth gyda recriwtio a chylchlythyrau a helpu gyda chytundebau rheoli ar gyfer grwpiau gwirfoddoli awtonomaidd sydd eisiau rheoli ardaloedd gwyrdd sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol.

Yn y 3 mis olaf o'r cyllid grant cychwynnol, rydym hefyd wedi ehangu cwmpas
a chyrhaeddiad y wybodaeth rydym yn ei gasglu i bob Awdurdod Lleol ar draws Cymru drwy weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) er mwyn arolygu holl Gynghorau Cymru a'u Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol ynghylch eu hanghenion gwirfoddoli

**Nodau'r Prosiect**

- Helpu awdurdodau lleol i wneud eu mannau gwyrdd yn fwy hygyrch i wirfoddolwyr a sefydliadau amgylcheddol drwy gyfleoedd gwirfoddoli da
- Darparu cefnogaeth wedi'i theilwra gyda systemau a phrotocolau ar gyfer gwirfoddoli, gan ychwanegu at eich strategaeth eich hun ar fannau gwyrdd.
- Helpu gyda chysylltiadau adrannol mewnol i gefnogi cyfleoedd gwirfoddoli ac iechyd a llesiant i holl drigolion eich sir.

**Gweithgaredd y Prosiect**

Rydym wedi dechrau gyda rhestr o Gynghorau y mae gennym eisoes gyswllt a pherthynas waith dda gyda hwy ac wedi ymestyn y rhestr drwy gysylltiadau gyda sefydliadau partner. Y Cynghorau cychwynnol wnaeth
fynegi diddordeb oedd Wrecsam, Powys, Ceredigion, sir Gaerfyrddin, Castell-nedd
Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, gyda sir y Fflint wedi'i ychwanegu drwy gysylltiadau partner. O'r saith cyfranogwr posib,
fe wnaethom gymryd 4 prif Gyngor i weithio gyda hwy: Cyngor Sir y Fflint, Ceredigion, sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot, yn ogystal â sawl llif gwaith a phrosiectau eraill er mwyn datblygu astudiaethau achos i arddangos arfer gorau a datrysiadau diddorol i broblemau. Roedd y rhain yn cynnwys prosiectau yng Nghyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Tref Aberhonddu a Chyngor Cymuned y Gogledd Ddwyrain.

Sir y Fflint

Roedd y cyswllt cychwynnol gyda sir y Fflint (Cyngor Sir y Fflint) drwy sefydliad partner, Cynnal Cymru. Ar y pryd hwnnw roedd gan Sir y Fflint ddiddordeb i gefnogi gyda chyfleoedd hysbysebu, cadarnhau cysylltiadau gyda sefydliadau gwirfoddoli lleol eraill a phrosesau symleiddio ar gyfer staff a gwirfoddolwyr o fewn y Cyngor.

Yn dilyn cyfarfodydd cychwynnol, fe geisiom ddal cyfleoedd gwirfoddoli, prosesau a chefnogaeth gyfredol, yn ogystal ag unrhyw ddyheadau o ran cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli. Aethom ati hefyd i lunio rhestr o syniadau yn gysylltiedig gydag ehangu eu cynnig gwirfoddoli, gan ofyn am eu mewnbwn ar ba un fydden nhw'n ei hoffi / oedd ganddynt y capasiti i'w flaenoriaethu. Cafodd Cyhoeddusrwydd a Marchnata ar gyfer cyfleoedd oedd yn bodoli eisoes ei adnabod fel un maes o'r fath a oedd angen cefnogaeth ychwanegol a'i flaenoriaethu, a'i symud ymlaen gyda Liz Mutch. Roedd cefnogaeth hyfforddi ar gyfer gwirfoddolwyr yn ail faes ffocws, wedi ei symud ymlaen gan Hywel Dodd.

*Gweler yr Astudiaeth Achos a ddarparwyd ar wahân am ragor o fanylion.*

Sir Gaerfyrddin

Ein cynllun prosiect cychwynnol gyda Sir Gaerfyrddin oedd i gwmpasu a choladu gwybodaeth am gyfleoedd oedd yn bodoli eisoes, casglu enghreifftiau o arfer da wrth reoli gweithgaredd gwirfoddoli oedd yn bodoli eisoes a chefnogi cyflwyno meddalwedd gwirfoddoli newydd.

Roedd gennym ddau brif faes gwaith yr oeddem am weithio arno. Ymarfer cwmpasu, oedd â'r nod o ddod i ddeall ystod a statws cyfleoedd gwirfoddoli oedd yn cael eu harwain gan y Cyngor ar draws y Cyngor a rhannu arfer gorau a gwybodaeth er mwyn sicrhau ansawdd a safon y profiad ar gyfer gwirfoddolwyr a gweithwyr y Cyngor. Yn ail, catalogio a chofnodi cynnydd platfform gwirfoddoli newydd ar-lein a chefnogi'r potensial i hwn gael ei ymestyn i weddill y gyfarwyddiaeth hamdden.

*Gweler yr Astudiaeth Achos a ddarparwyd ar wahân am ragor o fanylion.*

Ceredigion

Mae ein prif gysylltiadau yn y cyngor wedi methu ag ymgysylltu gyda ni oherwydd salwch a phwysau gwaith, felly roedd yn rhaid i'n ffocws ar ymgysylltu newid yn lle hynny i weithio yn fwy uniongyrchol gyda CMGC. Yn anffodus, fodd bynnag, gwelwyd ei bod hi'n amhosib symud y cynigion hyn yn eu blaen, er gwaetha'r brwdfrydedd cychwynnol.

Mae'r astudiaeth achos a ddarparwyd ar wahân yn dangos ar yr achlysur hwn mai'r gwir gasgliad yw nad oeddem wedi gallu dod o hyd i ffordd i oresgyn y rhwystrau o wynebwyd o fewn yr amser oedd gennym ni. Oherwydd capasiti'r timau oedd yn gysylltiedig doeddem ni, yn syml iawn, ddim yn gallu bwrw ymlaen gyda'n syniadau, er eu bod, yn eironig, wedi eu hanelu at wella capasiti.

Fodd bynnag yn ystod y broses o werthuso'r gwaith hwn, rydym wedi cael rhai sgyrsiau cynhyrchiol gydag adrannau unigol, felly mae cyfleoedd yn parhau ar gyfer cefnogaeth bellach yn y misoedd sydd i ddod.

*Gweler yr Astudiaeth Achos a ddarparwyd ar wahân am ragor o fanylion.*

Castell-nedd Port Talbot

Dyma un arall o'r Cynghorau lle roedd y pwysau ar amser staff wedi arwain at anallu i ymgysylltu cymaint ag y byddent wedi hoffi ei wneud. Ceisiom weithio gyda'r CVC lleol gyda gobeithion tebyg i'r hyn oedd gennym gyda CAVO / Ceredigion yn eu lle, gan archwilio cefnogi rhoi eu Strategaeth Gwirfoddoli oedd ar fin cael ei gweithredu ar waith. Fodd bynnag, wedi sawl ymgais gyda gwahanol adrannau nid oeddem yn gallu symud ein syniadau yn eu blaen.

Ers hynny rydym wedi dilyn hyn i fyny gyda'r CVC fel rhan o werthusiad y prosiect hwn er mwyn cael golwg mwy holistig o gyfleoedd gwirfoddoli'r ardal a sut maent yn cael eu rheoli.

Prosiectau / Astudiaethau Achos Ychwanegol

*Cyngor Tref Aberhonddu*

Mae Llais y Goedwig yn cefnogi Cyngor Tref Aberhonddu wrth iddynt gymryd cyfrifoldeb dros reoli'r parc lleol 'Island Fields' oddi wrth Gyngor Sir Powys, ac archwilio sut y gallant weithio ochr yn ochr gyda sefydliadau a gwirfoddolwyr lleol er mwyn datblygu a defnyddio'r safle.
*Gweler yr Astudiaeth Achos a ddarparwyd ar wahân am ragor o fanylion.*

*Cyngor Sir Powys*

Nid ydym wedi gallu symud ymlaen gyda'n gwaith gyda Phowys yn uniongyrchol, fodd bynnag, mae Cyngor Powys wedi bod yn gysylltiedig gyda'r gwaith a amlinellwyd uchod gydag Aberhonddu.

*Pen-y-bont ar Ogwr*


Mae Llais y Goedwig wedi cael nifer o brosiectau'n rhedeg gyda chefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), neu achosion lle rydym wedi bod yn llwyddiannus yn ein nodau oherwydd cysylltiad hirdymor gydag unigolion yn y Cyngor.

Penododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Llais y Goedwig er mwyn rheoli Gwarchodfa Natur Leol Parc Bedford ar gyfer a chyda'r gymuned leol, gan ddatblygu hwb gwirfoddolwyr, cefnogi rhaglen o weithgareddau'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr, ac adnabod gweithgaredd mentrau cymdeithasol. Drwy'r comisiwn hwn roeddem yn gallu cadarnhau cysylltiadau gyda'r gymuned, recriwtio mwy o wirfoddolwyr ac ymgysylltu gyda mwy o grwpiau, a grwpiau mwy amrywiol er mwyn ehangu cyfranogiad a defnydd o'r safle. Gweithio'n agos gyda chydweithwyr CBSP a grwpiau lleol er mwyn sicrhau bod Parc Bedford yn cael ei reoli ar gyfer a chyda phobl leol.
*Gweler yr Astudiaeth Achos a ddarparwyd ar wahân am ragor o fanylion.*

Arolwg o holl Ardaloedd y Cyngor


Mae arolwg wedi'i ddatblygu gan Lais y Goedwig ar ddechrau 2025 ac wedi'i anfon at gysylltiadau Awdurdod Lleol ar draws Cymru, ynghyd â Chynghorau Gwirfoddoli Sirol (CVCau), Arweinwyr Partneriaethau Natur Lleol a thrwy ein gwaith gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, grŵp Swyddogion Newid Hinsawdd. Cysylltwyd gydag oddeutu 90 o unigolion yn uniongyrchol. Derbyniom ymatebion llawn gan unigolion o fewn 9 o'r 17 awdurdod lleol y cysylltwyd â hwy. Er bod hyn yn fras yn cyfateb i 50% o gynghorau, dim ond â chanran fechan o'r unigolion roeddem wedi cysylltu â hwy.

Nod yr arolwg oedd ceisio deall sut oedd y cynghorau hyn yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ar hyn o bryd, beth maent yn ei feddwl yw'r bylchau a'r rhwystrau sy'n golygu nad ydynt yn gallu rhoi cynnig gwirfoddoli cyson ac eglur ymlaen a pha gefnogaeth fyddai'n eu helpu i gyflawni hyn.




O fewn yr ymatebion, fe glywsom fod gan y cynghorau raglenni gwirfoddoli er mwyn annog cymunedau lleol i gymryd perchnogaeth o'u mannau gwyrdd, i addysgu a darparu gwybodaeth, yn ogystal â mewn ffordd ymarferol iawn, fel ffordd gost effeithiol o gadw ar y blaen o ran nifer o'r tasgau amrywiol sy'n ofynnol er mwyn rheoli a gwella'r mannau hynny. Roedd gan lawer raglenni llwyddiannus gyda grŵp bach rheolaidd o wirfoddolwyr y gallent ymddiried ynddynt.

Soniwyd yn gyson bod cynghorau angen mwy o wirfoddolwyr ar gyfer y rhaglen yr oeddent am ei rhoi ar waith. Fodd bynnag, yn aml does gan gynghorau ddim un pwynt cyswllt unigol ar gyfer gwirfoddolwyr posib, does ganddynt ddim cyllideb ar gyfer marchnata, a dim ond dau oedd gan berthynas gyda'u cyngor gwirfoddoli lleol.




Drwy'r trwch, bron, roedd cyfleoedd gwirfoddoli yn cael eu cymryd gan bobl hŷn a oedd fel arfer wedi ymddeol, gyda diffyg gwirfoddolwyr ifanc, a hefyd roedd dod o hyd i wirfoddolwyr oedd yn hapus i gymryd rôl arweiniol yn profi i fod yn arbennig o anodd. Mae hyn yn gwneud model Prifysgol Aberystwyth Ceredigion yn gwneud astudiaeth achos mwy diddorol fyth.

Y neges i'w chymryd o'r arolwg yw, tra bod y bwriadau'n rhai da, mae timau sydd heb gydlynydd gwirfoddolwyr penodol yn teimlo ei bod yn ormod o wasgfa arnynt er mwyn rhoi amser i ddiweddaru prosesau, nac ystyried dulliau amgen o wirfoddoli er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch neu'n adlewyrchu eu cymuned leol yn well.

**Heriau'r prosiect**

- Cyfyngiadau o ran Capasiti - Roedd adnoddau cyfyngedig o fewn cynghorau yn aml yn arafu cynnydd, ond roedd ymyriadau LlyG yn helpu i flaenoriaethu camau gweithredu allweddol.
- Cydbwyso Rheoli ac Ymwneud Cymunedol - Mae annog cynghorau i newid o ddull o'r brig i lawr i fodel sy'n annog mwy o gyfranogiad yn parhau i fod yn faes sy'n hanfodol i'w ddatblygu.

Yn gyffredinol, mae cylch gorchwyl timau Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy o fewn awdurdodau lleol wedi ehangu tra mae eu timau wedi crebachu. Mae eu capasiti i gwblhau dyletswyddau statudol yn awr mor isel, fel bod gweithio ar brosiectau fel hyn, yn ddealladwy, yn eithaf isel ar eu rhestr.

Mae'r gyfradd ymateb i'r arolwg hefyd yn tystio i'r pwysau sy'n cael ei deimlo. Roedd cael nifer o ymatebion i'r arolwg yn dalcen caled, sydd hefyd yn cefnogi ymhellach y ddadl bod cynghorau yn syml iawn dan ormod o bwysau i ystyried gwneud newidiadau i brosesau a gweithdrefnau, nac yn wir i gwblhau arolwg ynghylch yr heriau hynny, hyd yn oed pan mai ein gobaith yw y gallwn, mewn rhyw ffordd fechan, wella eu capasiti yn y tymor hir.

**Traweffaith y Prosiect**

Mae Llais y Goedwig (LlyG) wedi dod o hyd i ffyrdd o gefnogi cynghorau lleol, grwpiau cymunedol a sefydliadau i reoli mannau gwyrdd yn effeithiol a chefnogi ymgysylltu ystyrlon gyda gwirfoddolwyr, mewn ffyrdd sy'n gweithio iddynt hwy ar hyn o bryd. Mae'r pum astudiaeth achos yn dangos prif ardaloedd lle mae arbenigedd LlyG wedi arwain at welliannau gweladwy mewn llywodraethiant, cyfranogiad a chynaliadwyedd.

Prif Feysydd Traweffaith

1. Hwyluso Rheoli Mannau Gwyrdd sy'n cael eu Rheoli gan y Gymuned.
    a. Mae LlyG wedi cefnogi cynghorau wrth lywio drwy gymhlethdodau ymgymryd â rheoli mannau gwyrdd cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn cael eu harwain gan y gymuned yn hytrach na chan fentrau sy'n gweithredu o'r brig i lawr.
2. Datblygu Strategaethau Recriwtio a Chadw Gwirfoddolwyr.
    a. Darparu cynghorau gydag adnoddau ymarferol a mewnwelediadau i wella sut mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio, eu cadw a sut yr ymgysylltir â hwy dros amser.
3. Cryfhau Capasiti Sefydliadol a Gwybodaeth am Bolisi
    a. Mynd i'r afael gyda bylchau yn arbenigedd y cyngor, yn arbennig felly yng nghyswllt rheoli gwirfoddolwyr, cydymffurfio gyda GDPR, a chyfathrebiadau.
    b. Cynorthwyo cynghorau i drawsnewid o allanoli tasgau i gyd-greu gyda'r gymuned, gan leihau pryder o amgylch rheoli gwirfoddolwyr.
4. Hyfforddi ac Uwchsgilio Gwirfoddolwyr
    a. Hwyluso datblygu sgiliau er mwyn mwyhau cyfraniadau gwirfoddolwyr ac ymgysylltu hirdymor.

**Cynigion ar gyfer gweithgaredd yn y dyfodol.**

Hyd yma mae ymyriadau Llais y Goedwig wedi cyfrannu cryn dipyn at sefydlu dulliau mwy strwythuredig, cynhwysol ac effeithiol o reoli mannau gwyrdd a gwirfoddolwyr. Mae'r camau nesaf yn cynnwys:

- Parhau i gefnogi cynghorau gyda chynllunio rheoli hirdymor, gan sicrhau y gall gwirfoddolwyr chwarae rhan weithredol o ran gofalu am safle.
- Mireinio strategaethau ymgysylltu er mwyn cryfhau cyfranogiad gwirfoddolwyr a'u cadw.
- Archwilio'r potensial ar gyfer rolau gwirfoddoli gweinyddol o fewn cynghorau er mwyn lleihau baich staff tra'n cynnal strwythurau cadarn.

Mae rhai awgrymiadau gan yr arolwg i Gynghorau Lleol yn cynnwys:

- Sesiynau rhwydweithio wedi'u hwyluso a rhannu arferion gorau rhwng adrannau'r cyngor,
- Hyfforddiant rheoli/cydlynu gwirfoddolwyr
- Sesiynau ar strategaethau recriwtio a chyfathrebu.
- Archwilio platfformau / pyrth recriwtio, fel gyda Sir Gaerfyrddin
- Cefnogi ehangu'r cynnig i wirfoddolwyr

Fel un enghraifft benodol, mae Wrecsam yn dweud bod eu proses recriwtio a chynefino ar gyfer gwirfoddolwyr yn: "Anffurfiol iawn, a hoffwn i ddechrau defnyddio platfform." Felly mae yna bosibiliadau yna i greu cysylltiadau gyda sir Gaerfyrddin o amgylch eu gwaith rheoli gwirfoddolwyr diweddar drwy borth ar-lein canolog, gyda sir y Fflint yng nghyswllt Marchnata, neu gyda'u CVC lleol gan ddefnyddio Gwirfoddoli Cymru.

Mae yna hefyd raglenni gwirfoddoli penodol y gallem eu cefnogi er mwyn gallu darparu, er enghraifft cynlluniau arfaethedig Ceredigion ar gyfer 'Hyrwyddwyr Llwybrau'.

**Dogfennau Ategol wedi'u darparu Ar Wahân:**

- Astudiaeth Achos: Sir Gaerfyrddin
- Astudiaeth Achos: Ceredigion
- Astudiaeth Achos: Pen-y-bont ar Ogwr
- Astudiaeth Achos: Sir y Fflint
- Astudiaeth Achos: Aberhonddu
- Canlyniadau Arolwg Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cwmwl geiriau, ymatebion i gwestiynau ynghylch 'heriau' o fewn yr arolwg
- Cwmwl geiriau, ymatebion i gwestiynau ynghylch 'y gefnogaeth sydd ei hangen' o fewn yr arolwg